Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

www.llyw.cymru

## Protocol ar gyfer Cymorth ac Ymyrraeth y Gwasanaethau Tân ac Achub

Medi 2015




OGL © Hawlfraint y Goron 2015 WG26345 ISBN digidol 978 1 4734 4677 9

# Protocol Cefnogaeth & Ymyrraeth Tân ac Achub

## 1. Cyflwyniad

Mae Adran 21 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 (Deddf 2004) yn gofalu bod rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub roi ystyriaeth i Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub Gweinidogion Cymru [1] (y "Fframwaith Cenedlaethol"), sy'n gosod blaenoriaethau, amcanion a chanllawiau ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub.

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y "Mesur") yn rhoi cyfrifoldeb ar Awdurdodau Tân ac Achub dros reoli a gwella eu perfformiad eu hunain, gan fynnu eu bod yn pennu, cyflawni a monitro amcanion gwella, adnabod unrhyw heriau penodol o ran llywodraethiant a pherfformiad, a cheisio mynd i'r afael â'r rhain a'u rheoli. Trwy'r Mesur, diwygiwyd dyletswyddau Awdurdodau Tân ac Achub yng nghyd-destun gwelliant, a grymoedd Gweinidogion Cymru i ddarparu cefnogaeth ac ymyrraeth. Yn ogystal, cyflwynwyd newidiadau dilynol i Adran 24 o Ddeddf 2004.

Mae Deddf 2004 a'r Mesur, fel ei gilydd, yn cynnwys grymoedd sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddarparu cyfarwyddyd ffurfiol ar gyfer, ac ymyrryd mewn, Awdurdodau Tân ac Achub ac yn ogystal, yn achos y Mesur, i ddarparu trefniadau cefnogi ffurfiol cyn cyfarwyddyd/ymyriad o'r fath.

Fel arfer, dewis olaf yn unig yw ymyriad, neu mewn achos o argyfwng. O ran Deddf 2004, nid yw grymoedd ymyrryd ond yn berthnasol pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn fod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, gweithredu'n unol â'r Fframwaith Cenedlaethol (gweler Adran 22).

Mae grymoedd cefnogi dan y Mesur yn berthnasol pan fo Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddai cefnogaeth yn debygol o gynorthwyo Awdurdod Tân ac Achub i gydymffurfio â Rhan 1 y Mesur. Mae grymoedd cyfarwyddyd/ymyrryd yn berthnasol pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn fod Awdurdod Tân ac Achub yn methu, neu'n debygol o fethu, cydymffurfio â Rhan 1 y Mesur, er gwaetha'r ffaith fod cymorth/cefnogaeth wedi ei ddarparu neu ei gynnig cyn hynny.

Caiff y Protocol hwn ei baratoi dan Adran 23 o Ddeddf 2004, a'i nod yw amlinellu os, sut a phryd y dylai Gweinidogion Cymru ddefnyddio'r cyfryw rymoedd ymyrryd a chefnogi.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y Protocol hwn, ac mae'n cydymffurfio â'r hyn sy'n ofynnol dan Adran 23(4) o Ddeddf 2004. Mae'n disodli'r protocol ymyrryd blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2007.

## 2. Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

[1] Cyfeiria Adran 21 at gyfrifoldebau'r Ysgrifennydd Gwladol, ond mae adran 62 o Ddeddf Awdurdodau Tân ac Achub 2004 yn trefnu y dylid darllen cyfeiriadau o'r fath at yr Ysgrifennydd Gwladol fel pe baent yn gyfeiriadau at Gynulliad Cenedlaethol Cymru o ran eu perthnasedd i Gymru. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru trwy weithredu Adran 162 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Mae Rhaglen Cymru ar gyfer Gwella (y "WPI") (sef y teitl gweithio ar gyfer canllawiau cynllunio gwelliant statudol a threfniadau cynllunio gwelliant yng Nghymru) yn darparu fframwaith lle mae awdurdodau gwelliant yng Nghymru (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub) yn gyfrifol am wella a rheoli eu perfformiad eu hunain.

Mae'r Mesur yn rhoi grymoedd i Awdurdodau Tân ac Achub i'w galluogi i gydweithio. Os yw Awdurdod Tân ac Achub o'r farn y byddai cydweithio yn ei helpu i gyflawni ei ddyletswyddau dan y Mesur, rhaid iddo geisio gwneud defnydd o'r grymoedd hynny. Mae'r dull cydweithredol o wella yn arbennig o berthnasol pan nodir heriau penodol o ran llywodraethiant neu berfformiad.

Er mwyn adnabod a delio â materion perfformiad, mae angen i bawb gydweithio'n effeithiol, a bod yn agored a thryloyw. Mae'n dilyn y dylai'r holl bartneriaid – hynny yw, Gweinidogion Cymru, y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, Swyddfa Archwilio Cymru, aseswyr cymheiriaid a'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru – rannu unrhyw wybodaeth berthnasol ar berfformiad Awdurdod Tân ac Achub; sicrhau bod trosolwg cenedlaethol cydlynol o berfformiad y sector tân ac achub ar gael; ac, yn benodol, yn nodi unrhyw achosion a allai fod yn destun pryder. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, bydd partneriaid hefyd yn trafod a chytuno ar y gwahanol ffyrdd o ddarparu cefnogaeth, a swyddogaethau pob un ohonynt wrth ddarparu neu gomisiynu'r gefnogaeth honno. Amlinellir y cyfrifoldebau unigol isod:

**Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn gyfrifol am y canlynol:**

- Rhoi ystyriaeth i'r Fframwaith Cenedlaethol wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- Gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- Cynnal hunanasesiadau trylwyr o berfformiad;
- Adnabod amcanion gwella a rheoli perfformiad lleol;
- Cyfrif am, ac adrodd ar, berfformiad yn gyhoeddus;
- Cydweithio ar welliannau, a cheisio cefnogaeth gan bartneriaid lle bynnag a phryd bynnag y bo hynny'n briodol.

**Mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am y canlynol:**

- Paratoi Fframwaith Cenedlaethol:
    - Sy'n pennu blaenoriaethau ac amcanion ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub o ran cyflawni eu swyddogaethau;
    - A allai gynnwys canllawiau ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng nghyd-destun cyflawni eu swyddogaethau;
    - A allai gynnwys unrhyw faterion eraill yn ymwneud ag Awdurdodau Tân ac Achub neu eu swyddogaethau sydd, ym marn Gweinidogion Cymru, yn briodol;
- Gofalu bod y Fframwaith Cenedlaethol yn cael ei adolygu;
- Adrodd ar sut, ac i ba raddau, y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn gweithredu'n unol â'r Fframwaith, ac adrodd ar unrhyw gamau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru i sicrhau hynny;

- Rheoli a datblygu polisi cyffredinol ar gefnogaeth ac ymyrraeth, mewn ymgynghoriad â phartneriaid cenedlaethol a lleol;
- Darparu cefnogaeth i Awdurdodau Tân ac Achub mewn achosion priodol;
- Ystyried y posibilrwydd o ddefnyddio grymoedd ymyrraeth Gweinidogion Cymru mewn achosion perthnasol;
- Rheoli unrhyw ymyriadau pan fyddant yn digwydd.

**Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am y canlynol:**

- Cydlynu ei gwaith ei hun a gwaith rheoleiddwyr eraill;
- Arolygu, gwerthuso ac adrodd ar i ba raddau y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cydymffurfio â'u dyletswyddau dan y Mesur;
- Cynnal arolygiadau arbennig o Awdurdodau Tân ac Achub nad ydynt efallai'n cydymffurfio â'u dyletswyddau dan y Mesur neu eu dyletswydd dan adran 21(7) o Ddeddf 2004 i roi ystyriaeth i'r Fframwaith Cenedlaethol wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- Gwneud argymhellion penodol i Awdurdodau Tân ac Achub ac i Weinidogion Cymru.

**Mae gan y Prif Ymgynghorydd Tân ac Achub** statws arolygydd dan Adran 28 o Ddeddf 2004. Dan y ddarpariaeth hon, gall y Prif Gynghorydd Tân ac Achub (ac unrhyw Gynghorydd Cynorthwyol neu swyddog a benodir gan Weinidogion Cymru) gael gafael ar wybodaeth ynghylch y canlynol:

- Sut mae Awdurdodau Tân ac Achub yn cyflawni eu swyddogaethau;
- Materion technegol sy'n gysylltiedig â'r swyddogaethau hynny.

Mae Adran 16 y Mesur yn cydnabod person a benodwyd dan Adran 28 o Ddeddf 2004 fel rheoleiddiwr perthnasol dan Ran 1 y Mesur.

Yn ymarferol, bydd y Prif Gynghorydd Tân ac Achub yn:

- Adolygu'r data a'r wybodaeth sydd ar gael, gan gynnwys Cynlluniau Gwella Awdurdodau Tân ac Achub, Adroddiadau Gwella Swyddfa Archwilio Cymru, a data meincnodi;
- Ystyried a yw'r dystiolaeth yn dangos bod angen adolygiad pellach neu fwy manwl;
- Cynnal adolygiadau o'r fath, a darparu gwybodaeth a chasgliadau i Weinidogion Cymru, Awdurdodau Tân ac Achub a Swyddfa Archwilio Cymru.

## 3. Egwyddorion

### *Hunan-werthuso*

Pwrpas cefnogaeth ac ymyrraeth yw datrys gwendidau o ran llywodraethiant neu gyflenwi mewn Awdurdod Tân ac Achub. Y gwahaniaeth yw fod cefnogaeth yn cael ei darparu trwy gytundeb, a chedwir ymreolaeth leol lawn. Mae ymyrraeth yn golygu bod Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo'r Awdurdod Tân ac Achub i weithredu mewn ffordd arbennig, gan osod cyfyngiadau ar y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau, neu – mewn achosion eithafol – yn cymryd y

swyddogaethau hynny oddi ar yr Awdurdod yn gyfan gwbl a'u rhoi i sefydliad arall neu i gomisiynwyr a benodwyd i'r pwrpas hwnnw.

Mae cefnogaeth ac ymyrraeth, fel ei gilydd, yn gysylltiedig ag amgylchiadau lle mae Awdurdod Tân ac Achub yn methu'n gyson, neu'n barhaus (am ba reswm bynnag) wrth gyflawni rhai o'i ddyletswyddau cyfreithiol ehangach yn effeithiol, neu pan fo perygl amlwg y bydd hynny'n digwydd.

Mae Awdurdodau Tân ac Achub yn bennaf cyfrifol am wella eu perfformiad eu hunain. Mewn achosion lle na cheir unrhyw welliant, rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub adnabod, ystyried a chymryd camau i unioni eu diffygion eu hunain, a rhaid rhoi cyfle rhesymol iddynt wneud hynny. Mae ganddynt hawl hefyd i ofyn am, a derbyn, cefnogaeth a chyngor priodol gan Weinidogion Cymru. Byddai hynny fel arfer yn digwydd trwy'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub.

Ym mhob achos, bron, mae'n well atal problem na'i datrys. Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i sicrhau dull aeddfed a thryloyw o weithio, un sy'n caniatáu i Awdurdodau Tân ac Achub ddatrys eu problemau eu hunain, gyda chymorth allanol neu hebddo. Mae hynny'n well na dulliau mwy cyfarwyddol o weithio, neu ddulliau a orfodir, sy'n cynnwys cyfarwyddiadau neu ymyriad ffurfiol. Cam olaf yw gweithredu o'r fath, ac ni ddylid ond eu defnyddio mewn sefyllfaoedd brys yn unig.

Yn benodol, dylai'r dulliau canlynol o weithio leihau neu ddileu unrhyw angen am ymyriad:

- Trefniadau cyson ac effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad;
- Trefniadau cyson a chadarn ar gyfer asesu risg mewn cymunedau;
- Ymgysylltu cyson ac effeithiol rhwng swyddogion ac aelodau;
- Atebolrwydd cryf i bobl leol, sy'n cynnig her gyson ac sy'n gyrru gwelliannau mewn meysydd blaenoriaeth;
- Rhannu a mabwysiadu arfer da a gwybodaeth rhwng Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru a thu hwnt;
- Datblygu, mabwysiadu a gweithredu ar drefniadau hunanasesu trylwyr, cadarn a chynhwysfawr (gan gynnwys atebolrwydd cyhoeddus a her gan gymheiriaid). Mae hyn yn hanfodol os am ddeall gwendidau gwirioneddol neu bosibl, a meysydd sydd ag angen eu gwella;
- Cysylltiadau clir rhwng cynlluniau strategol Awdurdodau Tân ac Achub a'r blaenoriaethau a amlinellir yn y Fframwaith Cenedlaethol.

Byddai dull o weithio yn seiliedig ar hunanasesu a her, yn cael ei ddilyn gan ymateb priodol, yn dangos bod Awdurdod Tân ac Achub yn agored ac yn dryloyw, a'i fod yn cynnwys diwylliant o ddysgu sefydliadol; trwy hynny byddai'n cynnig sicrwydd i'r cyhoedd, i Weinidogion Cymru ac i'r Rheoleiddwyr. Dylai osgoi unrhyw angen am ymyriad ffurfiol, ac eithrio mewn achosion gwirioneddol eithriadol neu achosion brys.

Dylai'r dull uchod o weithio alluogi Awdurdodau Tân ac Achub i atal, canfod a/neu gywiro unrhyw broblemau cyn iddynt fynd yn ddigon difrifol i gyfiawnhau'r angen am weithredu allanol.

***Cymorth allanol***

Pan nad yw hunangymorth yn digwydd, neu os nad yw'n llwyddo, bydd adrannau perthnasol y Protocol hwn yn dod i rym.

Mewn achosion eithafol, pan fo Awdurdod Tân ac Achub yn methu sicrhau'r gwelliannau angenrheidiol, gall Gweinidogion Cymru benderfynu ymyrryd. Prif ddiddordeb Gweinidogion Cymru, y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, a'r Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain yw datrys unrhyw broblemau mewn llywodraethiant neu gyflenwi, gan wneud hynny mor gyflym, effeithlon a chynaliadwy ag y bo modd; a lle bo ymyriad ffurfiol yn digwydd, caiff ymreolaeth lawn ei hadfer i Awdurdod Tân ac Achub cyn gynted ag sy'n bosibl.

Mae'r Mesur yn galw ar Weinidogion Cymru i gynnig cefnogaeth cyn y gallant ymyrryd yn y gwaith o redeg Awdurdod Tân ac Achub, ac eithrio mewn achosion brys. Bydd Gweinidogion Cymru yn mabwysiadu'r un egwyddor o ran ymyrryd dan Ddeddf 2004, er nad oes unrhyw ddyletswydd statudol i wneud hynny. Yn naturiol, mae cefnogaeth yn broses ddwyffordd ac mae'n rhagdybio y bydd yr Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain yn gweithio'n ddiwyd mewn ffordd adeiladol i adnabod problemau posibl, a lle bo hynny'n briodol, y byddant yn chwilio am gefnogaeth i fynd i'r afael â'r problemau hynny.

Mae cefnogaeth y Prif Gynghorydd Tân ac Achub ar gael i'r holl Awdurdodau Tân ac Achub, os gofynnir amdano, gan ddefnyddio'r broses a ddisgrifir yn ddiweddarach yn y Protocol hwn, cyn belled ag y bo adnoddau ar gael. Efallai hefyd y daw cynnig o gefnogaeth gan Awdurdodau Tân ac Achub eraill a chyrff yn y sector cyhoeddus, neu trwy nodi a chaffael cyngor a chymorth allanol.

Ni fydd gofyn am gefnogaeth allanol yn cael ei ystyried mewn unrhyw ffordd fel cyfaddefiad o ddiffyg neu fethiant, nac fel dull o briodoli bai; yn hytrach, mae'n cynnig sicrwydd i bartneriaid o hunanymwybyddiaeth Awdurdod Tân ac Achub, ei ymrwymiad i wella, a'i allu i gydnabod cyfyngiadau ei berfformiad. Mae hyn yn gryfder. Ar y llaw arall, mae methiant i fod yn agored a thryloyw, gan wadu bodolaeth problemau a/neu wrthod chwilio am gymorth i'w datrys, yn wendid corfforaethol cydnabyddedig sy'n aml yn un difrifol.

## 4. Rhannu Gwybodaeth a Chydlynu Cefnogaeth

Mae adnabod problemau cyn iddynt ddatblygu'n rhai difrifol, ac osgoi unrhyw angen am ymyriad, yn fater cenedlaethol yn ogystal â lleol. Mae gan Swyddfa Archwilio Cymru, Llywodraeth Cymru, y Prif Gynghorydd Tân ac Achub ac aseswyr cymheiriaid, ystod eang o wybodaeth ynghylch problemau gwirioneddol neu bosibl, a nifer fawr o rymoedd i ddelio â hwy. Mae'n hanfodol eu bod yn cydlynu eu hymdrechion er mwyn cynnal yr egwyddorion sy'n sail i'r Protocol hwn.

Mae gan y Grŵp Llywio Cynllunio Gwelliannau Awdurdod Tân ac Achub rôl allweddol i'w chwarae yn y gwaith o gyflawni'r dull cydlynol hwn o weithio. Mae ei aelodaeth yn cynnwys swyddogion Llywodraeth Cymru, y Prif Gynghorydd Tân ac Achub/Cynghorydd Cynorthwyol, swyddogion o'r tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru, Swyddfa Archwilio Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (trwy drefniant ad hoc ac ar gais Awdurdodau Tân ac Achub). Y rhain yw'r prif

bartneriaid yn y trefniadau cefnogi ac ymyrryd a nodir yn y ddogfen hon. Mae gan y Grŵp swyddogaeth ddeuol:

- Cyfrannu at ddatblygu cynigion, canllawiau ac arfau polisi i gefnogi trefniadau gwella perfformiad ar gyfer Awdurdodau Tân ac Achub yng Nghymru.
- Rhannu gwybodaeth ar berfformiad Awdurdodau Tân ac Achub unigol a thrafod yr angen a'r cyfle am gefnogaeth.

Bydd y Grŵp yn cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod casgliadau adroddiadau a gyhoeddwyd gan reoleiddwyr allanol, adolygu unrhyw dystiolaeth arall sydd ar gael, a rhoi ystyriaeth i unrhyw 'rybuddion cynnar' a allai awgrymu fod lle i bryderu am Awdurdod Tân ac Achub penodol. Yn benodol, bydd y Grŵp yn ystyried cryfder a chadernid gweithdrefnau Awdurdod Tân ac Achub ar gyfer hunanwerthuso, a lle bo hynny'n briodol, bydd yn ystyried canlyniadau gwerthusiad o'r fath. Cytunir ar amseriad y cyfarfodydd hyn gydag Awdurdodau Tân ac Achub a phartneriaid eraill i sicrhau eu bod yn digwydd yr un pryd â chyhoeddi ac argaeledd gwybodaeth berthnasol o ran gwella/perfformiad.

Bydd y Grŵp Llywio Cynllunio Gwelliannau yn:

- Sicrhau dull o ddarparu cefnogaeth ac ymyrraeth sy'n gydlynol, yn gyson, ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Bydd yn ceisio herio unrhyw ganfyddiadau rhagdybiedig neu wybodaeth 'feddal' sy'n dod i'r amlwg ynghylch gwasanaethau neu Awdurdodau Tân ac Achub penodol, gyda'r bwriad o ddefnyddio data a thystiolaeth sydd ar gael i dawelu meddwl pobl neu ymateb i bryderon allai gael eu codi. Yn yr un modd, pan fo pryderon yn parhau, bydd yn ceisio sicrhau ymateb cydlynol a chyson.
- Ceisio adnabod unrhyw heriau gwella cyffredin a wynebir ar draws yr holl Awdurdodau Tân ac Achub, ac ystyried sut y gellid mynd i'r afael â heriau o'r fath trwy ddatblygiadau polisi i'r dyfodol.
- Ceisio sicrhau bod arfer da cyfredol, neu arfer da sy'n dod i'r amlwg, yn cael ei adnabod, yn enwedig felly wrth sicrhau bod Awdurdodau Tân ac Achub sy'n wynebu heriau arbennig yn cael eu cyfeirio at rai a lwyddodd i reoli heriau tebyg er mwyn dysgu gwersi ganddynt.
- Ceisio adeiladu consensws ynghylch unrhyw broblemau a datrysiadau posibl. Bydd aelodau unigol y Grŵp yn ceisio gweithredu'r consensws hwnnw, a chymryd unrhyw gamau a awgrymir, o fewn cyfyngiadau eu grymoedd, eu cyllidebau a'u cyfrifoldebau eu hunain.

Ni fydd y Grŵp yn:

- Ymwneud â'r cydlynu arferol yng nghyd-destun gwaith arolygu, archwilio a rheoleiddio lleol dan Adran 23 y Mesur.
- Cael grym i glymu neu gyfeirio ei aelodau yn absenoldeb consensws.

Wrth ystyried unrhyw rybuddion cynnar neu bryder tybiedig ynghylch Awdurdod Tân ac Achub unigol, bydd y Grŵp yn ceisio nodi ymateb priodol, ac mae'n bosibl y bydd yn dod i'r casgliadau canlynol:

- Nid oes angen unrhyw gefnogaeth (nid yw'r pryder yn un o bwys neu nid yw wedi ei gadarnhau, a/neu mae'r Awdurdod Tân ac Achub yn ymwybodol o'r broblem ac yn cymryd camau i'w gwella);
- Mae angen gwybodaeth bellach, gan yr Awdurdod Tân ac Achub neu o rywle arall, cyn y gellir dod i gasgliad;
- Mae angen cefnogaeth – darperir cefnogaeth trwy'r Prif Gynghorydd Tân ac Achub neu Awdurdodau Tân ac Achub eraill/sefydliadau eraill yn y sector cyhoeddus.

Cynrychiolir pob un o'r tri Awdurdod Tân ac Achub ar y Grŵp. Mae'r dull o weithio a amlinellir yma'n galw am agwedd agored, ymddiriedaeth, a chyd-ddealltwriaeth rhwng yr holl bartneriaid. Gall unrhyw Awdurdod Tân ac Achub godi'r angen posibl am gefnogaeth gydag unrhyw un o'r partneriaid a gynrychiolir ar y Grŵp, a hynny'n gyfrinachol. Yn naturiol, mae gan yr Awdurdod Tân ac Achub hawl i ofyn am gefnogaeth yn uniongyrchol oddi wrth Weinidogion Cymru neu unrhyw sefydliad arall y tu allan i'r trefniadau penodol a sefydlwyd dan yr adran hon o'r Protocol. Fodd bynnag, y disgwyl yw, mewn ysbryd o weithredu'n agored a thryloyw, pan fo Awdurdod Tân ac Achub yn gofyn am gefnogaeth yn uniongyrchol oddi wrth Weinidogion Cymru neu sefydliadau eraill, y darperir manylion yng nghyfarfod nesaf y Grŵp. Ni fydd manylion cais o'r fath yn cael eu rhannu dim ond rhwng aelodau'r Grŵp, gyda chytundeb yr Awdurdod Tân ac Achub; gwneir hynny'n unswydd er mwyn rhoi gwybodaeth a thawelwch meddwl i aelodau'r Grŵp bod gweithgarwch cefnogol yn cael ei ddarparu a, lle bo hynny'n berthnasol, er mwyn gwneud gwaith pellach yng nghyd-destun datblygiad ac ystod y gefnogaeth a ddarperir. Ni fyddai gwybodaeth o'r fath yn cael ei datgelu i swyddogion eraill yr Awdurdod Tân ac Achub, nac i drydydd parti y tu allan i'r Grŵp, ac eithrio trwy gael cydsyniad penodol yr Awdurdod Tân ac Achub.

Yn yr un modd, pan fo materion sy'n dod i'r amlwg a/neu anghenion cefnogaeth posibl wedi cael eu nodi gan y Grŵp, bydd y Grŵp fel arfer yn gwahodd Awdurdod Tân ac Achub i gymryd rhan mewn trafodaethau cyfrinachol, a byddai'r trefniadau rhannu gwybodaeth a nodwyd uchod hefyd yn berthnasol. Byddai Awdurdod Tân ac Achub yn rhydd i dderbyn neu wrthod cais o'r fath.

Byddai unrhyw gynnig o gefnogaeth i Awdurdod Tân ac Achub yn amodol ar gael ei drafod a'i gytuno gyda'r Awdurdod Tân ac Achub. Fodd bynnag, os gwrthodir cynnig o gefnogaeth neu wahoddiad i drafod cefnogaeth bosibl, ac os yw'r un problemau'n gwaethygu i'r graddau sy'n golygu bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn torri amodau dyletswyddau perthnasol, byddai gan Weinidogion Cymru hawl i ymyrryd heb wneud cynnig pellach o gefnogaeth.

## 5. Tystiolaeth dros Gefnogaeth ac Ymyrraeth

Mae'n amhosib darparu rhestr fanwl o beth allai fod yn dystiolaeth dros ddarparu cefnogaeth ac ymyrraeth, ond yn fras gallai'r mathau o faterion a nodwyd yn Atodiad A a B arwain at yr angen am gefnogaeth neu ymyrraeth.

## 6. Cefnogaeth

Mae darparu cefnogaeth yn gynnar **bob amser** yn fanteisiol. Gall hyn rwystro problemau rhag mynd yn ddifrifol, gall gynnal ymreolaeth leol, a gall osgoi'r angen am ymyriad costus ac anghyfleus.

Gall Awdurdodau Tân ac Achub ofyn am gefnogaeth dan unrhyw amgylchiadau, nid dim ond trwy'r Grŵp Llywio Cynllunio Gwelliannau. Fodd bynnag, anogir Awdurdodau Tân ac Achub i wneud hynny cyn gynted â'u bod yn ymwybodol o broblemau wrth gydymffurfio â dyletswyddau perthnasol, a'u bod yn annhebygol o allu eu datrys yn gyflym ac effeithiol ar eu pennau eu hunain. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd gyfreithiol i ystyried pob cais am gefnogaeth yn rhesymol ac yn ôl ei haeddiant. Os na ellir darparu cefnogaeth, bydd Gweinidogion Cymru yn rhoi esboniad clir a rhesymegol o sail y penderfyniad hwn.

Gellir darparu cefnogaeth mewn sawl dull anffurfiol, ond bydd y ddogfen hon yn canolbwyntio'n unig ar geisiadau/cynigion ffurfiol o gefnogaeth.

Gall cefnogaeth ddigwydd ar sawl ffurf. Gallai gynnwys hyfforddiant a mentora, ymgynghoriaeth, her gan gymheiriaid, trosglwyddo arfer gorau, a datrysiadau cydweithredol. Caiff yr union ffurf ei theilwra fel ei bod yn gweddu i amgylchiadau pob achos, a bydd yn amodol ar drafod manwl a chytundeb gyda'r Awdurdod Tân ac Achub a chanddo angen am gefnogaeth o'r fath.

Gall cefnogaeth gael ei darparu gan y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, Awdurdod Tân ac Achub arall, neu asiantaethau eraill yn ôl y galw ac fel y cytunwyd.

Ar gyfer ymgysylltiadau estynedig, efallai y gofynnir am gyfraniad ariannol gan yr Awdurdod Tân ac Achub. Trafodir a chytunir ar yr union drefniadau ariannu gyda'r Awdurdod Tân ac Achub ar ddechrau'r broses.

Gall cefnogaeth hefyd fod ar ffurf gadarnhaol yn hytrach nag adferol. Yn benodol, os bydd Awdurdod Tân ac Achub o'r farn fod polisi, rhaglen neu ddeddfwriaeth benodol gan Lywodraeth Cymru yn amharu ar ei allu i wella, mae'n rhydd i godi hynny gyda Gweinidogion Cymru ac i awgrymu newidiadau priodol.

Nid yw'n dilyn y bydd cefnogaeth yn arwain at ymyriad, a gellir darparu cefnogaeth dan amgylchiadau pan na fyddai ymyriad yn briodol. Yn wir, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru gynnig cefnogaeth cyn y gallant ymyrryd, ac eithrio mewn achosion brys. Fodd bynnag, os nad yw'r gefnogaeth yn profi'n llwyddiannus, gellir ystyried ymyriad fel dewis amgen. Yn ogystal, gellir darparu cefnogaeth ar yr un pryd ag ymyriad, er enghraifft i helpu yn y gwaith o adeiladu capasiti lleol cyn dod ag ymyriad i ben.

Mae gan Weinidogion Cymru rymoedd dan Adran 28 y Mesur i 'wneud unrhyw beth' i gefnogi gwelliannau. Ond yn ôl y gyfraith **nid** yw'r grym hwnnw'n caniatáu i Weinidogion orfodi Awdurdod Tân ac Achub, nac unrhyw un arall, i dderbyn cynnig o gefnogaeth, nac i wneud unrhyw beth arall. **Ni ellir** darparu cefnogaeth onid yw'r Awdurdod Tân ac Achub dan sylw yn gofyn amdani neu'n cytuno i'w derbyn.

***Darparu cefnogaeth***
Fel y nodwyd, bydd ffurf a hyd cefnogaeth yn amodol ar gytundeb rhwng y Grŵp Llywio Cynllunio Gwelliannau a'r Awdurdod Tân ac Achub dan sylw. Os na ellir dod i gytundeb o'r fath, ni ddarperir unrhyw gefnogaeth.

Dylai Awdurdod Tân ac Achub sy'n derbyn cynnig o gefnogaeth ymateb yn gadarnhaol iddo. Gallai hynny gynnwys sicrhau bod aelodau a swyddogion yn cyfrannu'n llawn, a datblygu a gweithredu cynlluniau i fabwysiadu unrhyw newidiadau neu ddiwygiadau a awgrymir gan y rhaglen gefnogaeth.

Bydd y Grŵp Llywio Cynllunio Gwelliannau yn monitro a gwerthuso effeithiolrwydd pob pecyn o gefnogaeth a ddarperir. Bydd hyn yn caniatáu dysgu gwersi cyffredinol ynghylch darparu cefnogaeth, a dod i gasgliadau penodol ynghylch parhau â'r gefnogaeth neu beidio, neu ystyried a fyddai ymyriad yn fwy priodol.

## 7. Ymyriad

Ym mhob achos, ymyriad yw'r dewis olaf. Mae'r WPI yn hyrwyddo atebolrwydd lleol, ac yn gosod disgresiwn lleol a hyblygrwydd wrth galon y gwaith o gynllunio gwelliannau.

Fodd bynnag, mae grymoedd statudol ar gael i Weinidogion Cymru fel bod modd iddynt ymyrryd dan rai amgylchiadau. Ni fydd Gweinidogion Cymru ond yn defnyddio eu grymoedd lle bo hynny'n briodol, ac mewn dull sy'n cyfateb â difrifoldeb y methiant. Ni allant, ac ni fyddant, yn cymryd penderfyniadau o'r fath yn ysgafn.

Ac eithrio mewn achosion brys a/neu argyfyngus, ni fydd Gweinidogion Cymru ond yn ymyrryd pan wrthodwyd cynnig o gefnogaeth ffurfiol; pan nad yw Awdurdod Tân ac Achub wedi ymateb yn gadarnhaol i'r gefnogaeth a ddarparwyd; a/neu pan fethodd cefnogaeth ddatrys y problemau perthnasol.

Mewn egwyddor, bydd disgwyl i Awdurdod Tân ac Achub sy'n derbyn ymyriad dalu'r costau uniongyrchol perthnasol – er enghraifft, costau penodi byrddau adfer neu gomisiynwyr (gweler isod). Trafodir yr union drefniadau ariannu gyda'r Awdurdod Tân ac Achub ar ddechrau'r broses.

Caiff cylch gorchwyl pendant ei baratoi ar gyfer pob ymyriad. Bydd yn esbonio'r trefniadau atebolrwydd, y trefniadau i adrodd a rhannu gwybodaeth ac, yn allweddol, swyddogaethau a chyfrifoldebau unrhyw unigolion/cyrff a benodir gan Weinidogion Cymru, yr Awdurdod Tân ac Achub ei hun a phartneriaid, gan gynnwys rheoleiddwyr yn ystod cyfnod o ymyriad. Lle bo modd, defnyddir cylch gorchwyl safonol. Cytunir ar y cylch gorchwyl hwnnw rhwng partneriaid cyn unrhyw ymyriad – ac eithrio mewn achosion brys pan nad yw amser yn caniatáu hynny. Caiff y cylch gorchwyl ei adolygu wrth i ymyriad fynd yn ei flaen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn rheoli pob ymyriad ac yn darparu cefnogaeth briodol o ran polisi, ysgrifenyddiaeth a gweinyddiaeth.

Gall Awdurdod Tân ac Achub sy'n destun ymyriad barhau i dderbyn cefnogaeth dan amodau'r Protocol hwn.

Law yn llaw ag ymyriad, gellir darparu rhaglen estynedig o archwilio neu arolygu sy'n werthfawr wrth fonitro cynnydd a chefnogi adferiad, a dylid cydlynu rhaglenni neu arolygiadau perthnasol i'r perwyl hwnnw. Fodd bynnag, nid ydynt yn ffurfio rhan o'r ymyriad, ac mae'r cyfrifoldeb amdanynt yn aros gyda'r arolygiaeth neu'r corff archwilio neu reoleiddio perthnasol, ac nid gyda Llywodraeth Cymru.

***Ymyriad mewn achosion brys***

Achosion brys neu argyfyngus yw'r rhai hynny lle ceir tystiolaeth bendant fod Awdurdod Tân ac Achub wedi cyrraedd, neu ar fin cyrraedd, pwynt lle mae'n analluog neu'n anfodlon i reoli ei faterion ei hun. Mewn sefyllfa fel hon, mae risgiau gwirioneddol neu bosibl i wasanaethau a'u defnyddwyr, ac o ran gwneud defnydd priodol o arian cyhoeddus, yn ffactorau gwaethygol.

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn trafod achosion o ymyriad posib, a ffurf unrhyw ymyriad, gyda Swyddfa Archwilio Cymru, y Prif Gynghorydd Tân ac Achub, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac – os yn bosibl – gyda'r Awdurdod Tân ac Achub dan sylw. Fodd bynnag, gall cyfyngiadau amser olygu nad yw trafodaethau o'r fath yn bosibl bob tro, yn enwedig felly mewn achosion brys neu ddifrifol. Mae gan Weinidogion Cymru ddyletswydd i weithredu'n ddi-oed unwaith y caiff problemau sy'n galw am ymyriad eu hadnabod. Fel lleiafswm, dylai fod modd rhoi gwybod i bartneriaid ymlaen llaw ac yn gyfrinachol.

Os yw amser yn caniatáu ymgynghori, cynhelir trafodaethau cynnar gyda phartneriaid i ystyried tystiolaeth o fethiannau'r Awdurdod Tân ac Achub ac i rannu gwybodaeth.

Bydd Gweinidogion Cymru'n cyhoeddi eu bwriadau, trwy ddull megis Datganiad Gweinidogol, cyn gynted ag y bo hynny'n bosibl ac yn ymarferol.

***Ymgynghori cyn ymyriad dan Ddeddf 2004***

Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod Awdurdod Tân ac Achub yn gweithredu'n unol â'r Fframwaith Cenedlaethol, gall Gweinidogion Cymru, trwy orchymyn (gorchymyn adran 22 dan Ddeddf 2004), fynnu bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn gwneud rhywbeth, yn rhoi'r gorau i wneud rhywbeth, neu'n peidio â gwneud rhywbeth. Ni ellir gwneud gorchymyn o'r fath heblaw fod Gweinidogion Cymru o'r farn y bydd gwneud y gorchymyn yn hyrwyddo diogelwch y cyhoedd neu'n hyrwyddo economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd naill ai'r Awdurdod Tân ac Achub dan sylw, neu mewn cysylltiad â swyddogaethau Awdurdodau Tân ac Achub yn gyffredinol.

Mewn achosion o'r fath, bydd Gweinidogion Cymru, fel lleiafswm, yn ymgynghori â chynrychiolwyr yr Awdurdod Tân ac Achub dan sylw, ag unrhyw Awdurdodau Tân ac Achub eraill, neu â chyrff yn y sector cyhoeddus a allai gael eu heffeithio o ganlyniad, ac â Swyddfa Archwilio Cymru.

Mewn achosion brys, gall yr ymgynghori fod yn gyfyngedig i'r Awdurdodau Tân ac Achub yr effeithir yn uniongyrchol arnynt. Fodd bynnag, dylai Awdurdodau Tân

ac Achub fod yn ymwybodol o'r ffaith y bydd cyfnod cyfyngedig o amser i ymateb, yn dibynnu ar ddifrifoldeb yr achos dan sylw.

***Mathau o ymyriad***

Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gwneud eu gorau i bennu'r pecyn mwyaf priodol o gamau i fynd i'r afael ag unrhyw fethiannau.

Rhaid i ffurf a maint unrhyw ymyriad anelu at ddatrys y broblem mor effeithiol a chyflym â phosib. Fel yn achos darparu cefnogaeth, rhaid teilwra ymyriad i weddu i'r amgylchiadau. Golyga hynny y dylai'r ymyriad roi sylw i'r canlynol: (a) natur y broblem, (b) y risgiau sydd ynghlwm wrthi (yn enwedig felly risgiau uniongyrchol i ddefnyddwyr gwasanaethau), (c) capasiti/parodrwydd yr Awdurdod Tân ac Achub i ymateb yn gadarnhaol i'r ymyriad, ac (ch) y tebygolrwydd o ddod â'r ymyriad i ben yn gynnar a llwyddiannus.

Mae sawl model o ymyriad ar gael:

- Yn gyntaf, ceir modelau cefnogol, lle mae'n rhaid i Awdurdod Tân ac Achub weithio gyda bwrdd adferiad neu gorff tebyg, ond fel arall mae'r Awdurdod yn rhydd i wneud ei benderfyniadau ei hun. Yn gyffredinol, byddai'r model hwn yn fwy priodol pan (a) fo'r problemau'n cael eu nodi'n glir a'u bod yn hunangynhwysol; a/neu (b) fo'r risgiau i ddefnyddwyr gwasanaethau yn gymharol isel; a/neu (c) yr ymddengys fod gan yr Awdurdod Tân ac Achub y capasiti a'r parodrwydd i ymateb yn llawn ac effeithiol i'r ymyriad. Os yw'r Awdurdod Tân ac Achub wedi gwneud ei orau i gyflawni ei ddyletswyddau, ond wedi methu gwneud hynny'n effeithiol, am ba reswm bynnag, yna y model hwn yn aml fydd yr un mwyaf priodol.
- Yn ail, a phan fo'r gwrthwyneb yn wir, gallai ymyriad mwy cyfarwyddol fod yn fwy priodol. Gallai ymyriad o'r fath olygu cymryd swyddogaethau oddi ar yr Awdurdod a phenodi comisiynwyr neu gamau tebyg. Hwn yw'r math mwyaf difrifol o ymyriad, ac nid yw'n briodol ond pan gafwyd methiannau difrifol dros gyfnod hir o ran trefn lywodraethol neu gyflenwi, lle nad yw mathau eraill o gefnogaeth neu ymyriad wedi gweithio, a/neu pan fo'r Awdurdod Tân ac Achub wedi bod yn anfodlon ymateb yn gadarnhaol i fathau eraill o ymyrraeth neu gefnogaeth, ac i'r angen am welliant mwy cyffredinol.
- Yn olaf, mae'n bosib i ymyriad fynnu bod Awdurdod Tân ac Achub yn cymryd camau penodol i fynd i'r afael â phroblem sy'n hysbys, yn ddifrifol, ond yn hunangynhwysol, neu i baratoi cynllun ar gyfer gwneud hynny. Ni fyddai problemau unigol fel arfer yn sail ar gyfer ymyriad, ac o'r herwydd mae disgwyl i'r model hwn o ymyriad fod yn un a ddefnyddir ond yn anaml; serch hynny, gallai fod yn addas wrth ddelio â materion brys.

Bydd union ffurf yr ymyriad yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos ac ar gapasiti a pharodrwydd yr Awdurdod Tân ac Achub i fynd i'r afael â'r broblem. Gall yr ymyriad gyfuno agweddau o fwy nag un model, neu gall esblygu wrth i'r adferiad fynd yn ei flaen (er enghraifft, gall penodi comisiynwyr arwain at greu bwrdd adferiad os a phan fo'r gwelliant yn gynaliadwy). Nid oes unrhyw 'hierarchaeth ymyrraeth' lle bo methiannau mwy difrifol yn awtomatig yn teilyngu ymyriad mwy llym; yr unig brawf a ddefnyddir yw adnabod pa drefniadau sydd fwyaf tebygol o ddatrys problemau penodol yr Awdurdod Tân ac Achub, a hynny mor gyflym ac mor gynaliadwy ag y bo modd.

Pan fo swyddogion Llywodraeth Cymru yn gofyn am wybodaeth gan Awdurdod Tân ac Achub er mwyn helpu i ddiffinio'r ymyriad mwyaf priodol, bydd raid i'r Awdurdod Tân ac Achub ddarparu ymateb manwl-gywir a phrydlon, a chydweithio ag unrhyw gamau a awgrymir.

Pan fo ymyriad yn cynnwys penodiad allanol, e.e. ar fyrddau ymgynghorol, gwneir hynny ar sail meini prawf y cytunir arnynt cyn cysylltu ag ymgeiswyr posibl. Fel arfer, ni fydd yn bosibl nac yn angenrheidiol dilyn trefn lawn ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Fodd bynnag, gwneir pob penodiad o'r fath ar sail amodau a thelerau safonol sy'n rheoleiddio ymddygiad yn unol ag egwyddorion Nolan.

***Dod ag ymyriad i ben***

Mae'n fanteisiol i bawb os gellir dod ag ymyriad i ben ar y cyfle cyntaf posibl. Daw ymyriad i ben cyn gynted ag y daw'n amlwg fod adferiad cynaliadwy wedi'i gyflawni, a bod Awdurdod Tân ac Achub mewn sefyllfa i weithredu'n annibynnol. Ni fydd dod ag ymyriad i ben yn golygu o reidrwydd bod yr holl ddiffygion a nodwyd wedi cael eu cywiro'n llawn; y cyfan mae'n ei olygu yw bod Awdurdod Tân ac Achub yn gallu delio ag unrhyw bryderon sy'n weddill ar ei ben ei hun, neu gyda chefnogaeth.

Yn achos y rhan fwyaf o ymyriadau, byddai'n dda pe gellid gostwng lefel yr ymyriad cyn dod ag ef i ben yn llwyr. Bydd hyn yn caniatáu adfer peth annibyniaeth cyn gynted ag y bo modd, ac yn golygu bod modd asesu cynaliadwyedd yr adferiad hwnnw mewn amgylchedd a reolir.

Ar ddiwedd ymyriad, bydd Llywodraeth Cymru a phartneriaid yn comisiynu gwerthusiad (gan amlaf gan drydydd parti annibynnol, e.e. arbenigwr academaidd) i gyfrannu at a llywio ymyriadau i'r dyfodol. Bydd y gwerthusiad hefyd yn edrych ar 'wersi a ddysgwyd' – pam fod rhai pethau wedi mynd o chwith mewn Awdurdod Tân ac Achub, a beth allai'r Awdurdod Tân ac Achub neu ei bartneriaid fod wedi'i wneud i reoli neu atal problemau (llywodraethu neu berfformiad) o'r fath. Caiff y casgliadau eu cyhoeddi, os nad yw'r ymyriad yn ymwneud â materion arbennig o sensitif, gan gynnwys adnabod unigolion/ manylion personol.

**Atodiad A**

**Tystiolaeth dros gefnogi neu ymyrryd**

Mae Deddf 2004 (adran 22) yn cynnwys darpariaeth sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd pan fo Awdurdod Tân ac Achub yn methu neu'n debygol o fethu gweithredu'n unol â'r Fframwaith Cenedlaethol. Cynhwysir y gyfraith ar gefnogi ac ymyrryd mewn materion llywodraethiant corfforaethol a rheoli perfformiad yn Rhan 1 y Mesur.

Mae'r dyletswyddau corfforaethol (i wneud trefniadau er mwyn sicrhau gwelliannau) a geir yn y Mesur yn eang a bwriadus. Maent yn ymwneud â sut y dylai Awdurdodau Tân ac Achub weithredu, ac i ba bwrpas – yn hytrach na rhagnodi beth y dylai Awdurdodau Tân ac Achub ei wneud mewn termau penodol neu absoliwt. Ond hyd yn oed wedyn, mae'r gyfraith yn cydnabod yn gyffredinol y gall perfformiad Awdurdod Tân ac Achub, wrth gyflawni'r dyletswyddau hynny, ddibynnu ar y cyd-destun ac ar yr heriau mae'n eu hwynebu. Mae'n dilyn, felly, fod yr angen am gefnogaeth ac ymyrraeth hefyd yn seiliedig ar feini prawf eang.

Mae'n amhosibl rhestru'n fanwl beth allai'r gefnogaeth a'r ymyrraeth honno olygu, ond, yn fras, gallai'r mathau canlynol o faterion arwain at yr angen am gefnogaeth neu ymyrraeth.

**Dan Ddeddf 2004,** methiant neu fethiant tebygol i weithredu'n unol â'r Fframwaith Cenedlaethol (adran 22(1)). Gall hynny gynnwys methiant i gyflawni dyletswyddau craidd dan adrannau 6, 7 ac 8 a dyletswyddau a gynhwysir mewn gorchmynion a wnaed dan Adran 9 o Ddeddf 2004. Sylwer fod methiant yn y cyd-destun hwn yn golygu mwy na dim ond methiant i wneud darpariaeth o'r fath. Gall hefyd olygu darparu'r gwasanaethau mewn ffordd sy'n gyson ac yn afresymol o annigonol neu aneffeithiol, a/neu fethu adnabod a chywiro gwendidau yn y ddarpariaeth.

Gall gynnwys hefyd y methiant i weithredu'r blaenoriaethau eraill a nodwyd yn y Fframwaith Cenedlaethol, gan gynnwys trefniadau i gydweithio'n effeithiol, cynllunio effeithiol trwy neilltuo adnoddau ar gyfer blaenoriaethau, dangos sut y gallai'r camau hynny wneud gwahaniaeth, a chwilio am flaengaredd a dulliau newydd o weithio. Gallai methiant gynnwys y canlynol:

- Methiant i gynllunio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau ar sail risg, a sicrhau bod y cyhoedd yn gwybod am yr ystod o wasanaethau sydd ar gael;
- Methiant i weithio gyda rhan-ddeiliaid allweddol i wella canlyniadau diogelwch tân;
- Methiant i roi trefniadau ar waith i leihau nifer y tanau sy'n digwydd a difrifoldeb eu heffaith;
- Methiant i ddarparu trefn effeithiol o gydlynu argyfyngau;
- Methiant i ddarparu'r adnoddau, yr offer a'r hyfforddiant priodol i sicrhau diogelwch yr holl staff a'r cyhoedd.

**Methiant corfforaethol, dan y Mesur:** ymdeimlad neu agwedd bendant o fethiant 'i wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus'. Gallai hyn gynnwys

methiannau gwirioneddol neu bosibl i gyflawni unrhyw rai o'r dyletswyddau yn Rhan 1 y Mesur, yn enwedig felly os yw'n ymddangos bod methiant o'r fath yn gyson neu'n systemig, a/neu'n seiliedig ar broblemau proses, capasiti neu ddiwylliant sefydliadol. Byddai hefyd fel arfer yn cael ei adlewyrchu mewn casgliadau ac argymhellion anffafriol gan Swyddfa Archwilio Cymru neu, yn llai aml, gan arolygiaethau. Yn aml, bydd yn cynnwys methiannau cysylltiedig mewn gwahanol agweddau ar lywodraethiant a chyflenwi, yn enwedig felly os daethant, neu os ydynt mewn perygl o ddod, yn 'gylchoedd dieflig' hunan-barhaus. Mae Atodiad B yn nodi'n fanylach rai o ffynonellau ymddangosiadol methiant corfforaethol.

Ni fyddai'r amgylchiadau canlynol ynddynt eu hunain *fel arfer* yn teilyngu cefnogaeth neu ymyrraeth:

- Methu targedau unigol neu fethu cyflawni amcanion gwella yn llawn. Mae darparu gwasanaethau'n amodol ar bwysau o wahanol gyfeiriadau, a gall llawer ohonynt fod y tu hwnt i reolaeth Awdurdod Tân ac Achub. Dim ond pan fo diffygion o'r fath yn dangos gwendidau yn nhrefniadau mewnol Awdurdod Tân ac Achub y gallai hyn arwain at gefnogaeth neu ymyrraeth. Mewn cyfnod o galedi ariannol, gellir ystyried bod cynnal y safonau cyfredol – gan ymdopi â llai, neu flaenoriaethu amcanion gwella er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r cyhoedd – yn ffordd ddilys o wneud trefniadau ar gyfer sicrhau gwelliannau parhaus.
- Cwynion (e.e. i'r Awdurdod Tân ac Achub ei hun, i'r Ombwdsmon neu i'r heddlu), camau cyfreithiol neu ddulliau eraill o wneud iawn mewn achosion unigol. Er bod camweinyddu yn amlwg yn fater difrifol o safbwynt y person sy'n ei ddioddef, nid yw o reidrwydd yn awgrymu bod y sefydliad yn ei grynswth yn methu cyflawni ei ddyletswyddau. Fodd bynnag, gall lefel gyson uchel o gwynion awgrymu gwendidau ehangach o ran proses neu ddiwylliant – ac felly hefyd amharodrwydd amlwg a chyson i roi sylw i gwynion neu gynnig datrysiad priodol.
- Casgliadau archwilio neu arolygiadau anffafriol. Dylai'r Awdurdodau Tân ac Achub eu hunain allu delio â chasgliadau o'r fath. Fodd bynnag, dylid derbyn argymhelliad ffurfiol gan arolygydd, archwilydd neu reoleiddydd (gan gynnwys argymhelliad ynghylch cefnogaeth neu ymyrraeth) onid oes rhesymau amlwg i beidio â gwneud hynny.

**Atodiad B**

## Ffynonellau Methiant Corfforaethol

### Cyflwyniad

Mae'r Atodiad yn disgrifio rhai problemau ynghylch rheolaeth gorfforaethol a gwasanaethau mewn Awdurdodau Tân ac Achub a allai awgrymu bod ar Awdurdod Tân ac Achub angen cefnogaeth neu ymyrraeth.

### Elfennau'r ddyletswydd sylfaenol

Man cychwyn y dadansoddiad hwn yw'r ddyletswydd sylfaenol yn adran 2 o'r Mesur: "*Rhaid i [Awdurdod Tân ac Achub] wneud trefniadau i sicrhau gwelliannau parhaus yn y modd y cyflawna ei swyddogaethau*."

Mae Awdurdod Tân ac Achub yr ymddengys ei fod yn methu cyflawni'r ddyletswydd hon, neu sy'n ymddangos fel petai mewn perygl o wneud hynny, yn gymwys i dderbyn cefnogaeth, neu ymyriad, dan adrannau 28 a 29 o'r Mesur.

Mae gweddill Rhan 1 y Mesur yn esbonio'r ddyletswydd hon ac yn ymhelaethu arni. Byddai'n rhesymol dweud y gellir rhannu'r ddyletswydd yn bedair elfen ofynnol, ac mae angen i bob un ohonynt gydlynu a rhyngweithio'n effeithiol os yw Awdurdod Tân ac Achub yn mynd i gyflawni'r ddyletswydd sylfaenol, sicrhau gwelliant ac osgoi "methiant":

- Sefydlu cysyniad clir a dilys, sy'n cael ei ddeall yn gyffredinol, o ystyr 'gwelliant' (h.y. amcanion sefydliadol tymor byr, canolig a hir);
- Cynllunio a chynnal casgliad o drefniadau yn y meysydd gwleidyddol, gweinyddol, atebolrwydd a rheoli adnoddau, sy'n ymddangos fel petaent yn debygol o wneud y cynnydd mwyaf posibl tuag at gyflawni'r amcanion hyn;
- Gweithredu'r trefniadau hynny'n gyson, yn effeithlon ac yn effeithiol;
  – ac os yw hyn oll yn digwydd . . .
- Sicrhau gwelliannau gwirioneddol o ganlyniad, neu gynifer ohonynt ag sy'n rhesymol bosibl.

Sylwer nad yw'r Mesur yn cynnwys unrhyw ddyletswydd i wella fel y cyfryw, ond mae llwyddo'n gyson i sicrhau gwelliannau yn darparu tystiolaeth empiraidd gref bod trefniadau addas yn eu lle.

Yn yr un modd, mae modd adnabod yn fras y mathau o amgylchiadau a allai arwain at fethiant, er enghraifft, os oes gan Awdurdod Tân ac Achub:

- Amcanion strategol annigonol neu annilys (h.y. nad oes ganddo ddiffiniad clir y cytunwyd arno o "welliant" sy'n ddealladwy i bawb perthnasol);
- Trefniadau mewnol anghyflawn neu anaddas ar gyfer cyrchu a monitro gwelliannau;
- Trefniadau camweithredol: mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cynllunio'n dda, ond nad ydynt neu na allant weithredu fel y bwriedid, er enghraifft systemau a phrosesau corfforaethol sy'n fregus neu nad ydynt yn bodoli, a

fyddai'n darparu'r cyd-destun y gallai trefniadau fodoli neu ffynnu ynddo; …y gallai unrhyw un ohonynt arwain at

- Beidio â sicrhau'r gwelliannau yr anelwyd atynt, neu beidio â sicrhau cymaint o welliant ag sy'n rhesymol bosibl dan yr amgylchiadau. Unwaith eto, nid yw peidio â sicrhau gwelliannau neu gyrraedd targedau yn fethiant ynddo'i hun. Ond os yw hynny'n digwydd yn gyson, gall awgrymu bod y trefniadau'n annigonol mewn rhyw ffordd.

Mae'n bosibl fod llawer o'r problemau hyn, os nad y rhan fwyaf, yn rhyngweithio â'i gilydd, neu fod yna gysylltiad achosol rhyngddynt. Er enghraifft, gall diffyg eglurder strategol arwain at neilltuo adnoddau mewn ffordd aneffeithiol a/neu at olygu nad yw rheolaeth weithredol yn rhoi digon o sylw i sicrhau deilliannau blaenoriaethol (a allai, yn ei dro, wneud sefyllfa'n fwy ansefydlog, gan greu cylch dieflig). Y math yma o gyfuniad fyddai fel arfer yn rhoi rheswm dros bryderu, gan arwain yn y pen draw at ymwneud allanol. Fel arfer, ni fyddai bodolaeth problemau unigol neu hunangynhwysol yn gwneud hynny. Ond nid yw hynny, wrth gwrs, yn ddadl dros anwybyddu problemau o'r fath; yn wir, mae'n ddadl dros eu hatal, eu canfod a'u cywiro cyn iddynt greu unrhyw broblemau eraill tebyg neu ryngweithio â hwy.

Mae'r adrannau isod yn amlygu rhai o'r problemau posibl a all awgrymu bod Awdurdod Tân ac Achub yn methu yn ei ymdrech i sicrhau gwelliant parhaus. Caiff y problemau eu grwpio yn ôl y mathau o amgylchiadau a amlinellir uchod. Ni fwriedir i'r rhestr o broblemau posibl fod yn hollgynhwysol, ac ni ddylid dibynnu arni i fod yn rhestr wirio o lywodraethu da (neu wael). Ond dylai bodolaeth unrhyw un o'r nodweddion hyn fod yn destun pryder. Os cafwyd tystiolaeth o gysylltiad achosol rhwng mwy nag un nodwedd o'r fath, byddai hynny'n ei wneud yn fwy fyth o destun pryder. Dylid gweithredu'r Protocol hwn (boed gan yr Awdurdod Tân ac Achub neu gan Weinidogion Cymru) cyn gynted ag y daw unrhyw dystiolaeth o'r fath i'r amlwg.

**Amcanion annigonol neu annilys**

- Gweledigaeth strategol yn rhy amwys, diddrwg-didda ac afrealistig; un na ellid ei chyflawni mewn gwirionedd;
- Gweledigaeth strategol rhy benodol, ac yn brin o ymdeimlad ehangach o gyd-destun, cydlyned neu olwg hirdymor;
- Amcanion nad ydynt yn cael eu hadolygu neu eu diwygio'n achlysurol ac yn ddigonol;
- Amcanion yn cael eu newid yn rhy aml; ansefydlogrwydd a diffyg amynedd;
- Aelodau heb fod yn cyfrannu'n ddigonol at ddatblygu neu adolygu amcanion;
- Partneriaid heb fod yn cyfrannu'n ddigonol at ddatblygu neu adolygu amcanion, amcanion partneriaid yn gwrthdaro neu heb fod yn cydweddu;
- Y cyhoedd heb fod yn cyfrannu'n ddigonol at ddatblygu neu adolygu amcanion;
- Amcanion strategol nad ydynt yn cael eu hadlewyrchu mewn cynlluniau busnes/gweithredol/gorsafoedd; nad ydynt yn cael eu deall/derbyn ar bob lefel ar hyd a lled y sefydliad.

**Trefniadau anghyflawn neu anaddas**

- Gwaith rheoli ac adrodd ar berfformiad yn anghyflawn neu heb fod yn ddigon rheolaidd, ac yn esgeuluso ffynonellau pwysig o dystiolaeth;
- Gormod/dim digon o bwyslais ar ffynonellau penodol (e.e. data perfformiad, adroddiadau rheoleiddiol, meincnodi); tueddiad i fonitro prosesau neu allbynnau yn hytrach na chanlyniadau;
- Gwaith rheoli ac adrodd ar berfformiad heb gael ei gysylltu ag amcanion strategol (e.e. pwyslais ar berfformiad gwasanaeth yn hytrach nag ar gyflawni cyrhaeddiad);
- Rheolaeth ddynol, ariannol ac asedol heb gael ei chysylltu ag amcanion strategol, fel uchod;
- Dim digon o gyfraniad gan aelodau o ran monitro a herio perfformiad;
- Rhoi ystyriaeth annigonol i gydweithio; golwg rhy gul, neu'n canolbwyntio'n ormodol ar y tymor byr, o ran risgiau, costau a manteision;
- Gor-bwyslais ar gydweithio; cyrchu cyfleoedd fel dibenion ynddynt eu hunain, heb roi digon o sylw i risgiau, costau a manteision;
- Diffyg adborth o fonitro gwaith cyflenwi wrth gynllunio amcanion, targedau a chyllidebau i'r dyfodol.

**Trefniadau camweithredol**

- Tuedd i gytuno: tuedd yn niwylliant sefydliad i bwysleisio tystiolaeth o lwyddiant a diystyru beirniadaeth (gan gynnwys beirniadaeth gyhoeddus, wleidyddol neu reoleiddiol) neu dystiolaeth arall o fethiant;
- Diffygion yn y berthynas rhwng pobl allweddol (e.e. aelod/swyddog, corfforaethol/rheng flaen neu Awdurdod Tân ac Achub/partner);
- Tan-ariannu, gorwario heb ei reoli, aneffeithlonrwydd, gwerth gwael am arian;
- Swyddi allweddol heb eu llenwi am gyfnodau estynedig a/neu lefelau uchel o drosiant neu absenoldeb staff.

**Dim gwelliant neu welliant annigonol**

- Methiant i gyflawni canlyniadau neu i arddangos cyflawniad o'r fath;
- Tan-berfformiad cyson mewn meysydd gwasanaeth allweddol (boed hynny trwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad, canfyddiadau rheoleiddwyr neu mewn rhyw ffordd arall), na ellir eu hesbonio gan heriau neu gyfyngiadau yn y cyd-destun gweithredol;
- Lefelau cyson uchel o gwynion mewn meysydd gwasanaeth allweddol neu fesuriadau eraill o anfodlonrwydd ymhlith defnyddwyr.